**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**206 - Rheoliadau Hadau (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020**
*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 17 Tachwedd 2020*

| **Sifftio** | |
|---|---|
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Bydd |
| Gweithdrefn: | Gwneud Negyddol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Gweithdrefn | Gwneud Negyddol |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag Adran 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

**Crynodeb**

Diben y Rheoliadau hyn yw sicrhau bod gan y DU lyfr statud ymarferol ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu. Maen nhw'n arfer y pŵer yn Adran 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i roi Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon y Cytundeb Ymadael ar waith. Maen nhw'n diwygio Rheoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywogaethau) 2001 fel eu bod yn gymwys i Brydain Fawr yn unig ac yn creu rhestr o amrywogaethau ar gyfer Prydain Fawr Maen nhw'n diwygio Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 i alinio'u diwygiadau o ran eu hymarferoldeb â'r Protocol ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywogaethau) (Ffioedd) 1994.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae’r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â’r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 20 Tachwedd 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.